



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Adroddiad Blynyddol

Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

2019/20

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Cydymffurfiaeth Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	4
3.	Cydymffurfiaeth Safonau Llunio Polisi	8
4.	Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu	9
5.	Monitro	10
6.	Safonau Atodol	10
7.	Cyflawniad i dargedau Ebrill 2019 – Mawrth 2020	11
8.	Blaenoriaeth ar gyfer Ebrill 2020 – Mawrth 2021	12

Adran 1: Cyflwyniad

Sefydlwyd Cyngor Llyfrau Cymru yn 1961. Mae'n gorff cenedlaethol a chanddo statws elusennol ac fe'i hariannir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwasanaethu cyhoeddwr, awduron a darllenwyr yng Nghymru. Fel corff allweddol ym myd llyfrau, mae'n cynnig gwasanaeth a gwybodaeth i bawb sy'n ymwneud â'r maes. Golyga hyn ddarparu gwasanaethau unigol i'r byd cyhoeddi (ym meysydd golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu) gyda golwg ar wella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Cyngor hefyd yn dosbarthu grantiau i hybu cyhoeddi llyfrau a chylchgronau yn Gymraeg a Saesneg.

Lleolir y sefydliad yn Aberystwyth, Ceredigion, ar ddau safle: yng Nghastell Brychan ac ym Mharc Busnes Glanrafon, ar gyrion y dref. Y mae gan y Cyngor staff o oddeutu 46 aelod o staff. Oherwydd natur a phwrpas y sefydliad, y mae'n rhaid i fwyafrif llethol y staff fedru cyfathrebu'n hyderus, ar lafar ac ar bapur, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Y mae i'r Gymraeg le amlwg yng ngweinyddiaeth, llywodraeth a gweithgarwch y sefydliad. Rhoddir cryn bwyslais hefyd ar safon a chywirdeb y Gymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Llyfrau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mabwysiadodd y Cyngor Llyfrau ei Gynllun Iaith Gymraeg yn 2011.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor Llyfrau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pwrpas y safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg;
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Gymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Gymraeg a gwella eu hansawdd.

Derbyniodd y Cyngor Llyfrau hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 25 Gorffennaf 2016. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor Llyfrau gydymffurfio â hwy, ac ar 25 Ionawr 2017 daeth 150 o safonau yn weithredol.

Mae'r Cyngor Llyfrau yn hollol ymrwymedig i'r iaith Gymraeg, ac eisoes yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arni trwy weithrediad ei Chynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Llyfrau gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Medi fel ag y gosodwyd yn Safonau'r Gymraeg (152, 158,164). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Casglwyd yr wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor Llyfrau yn ei gynnal ar ei gwasanaethau.

Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn ynghylch cydymffurfiaeth y Cyngor Llyfrau a'r Safonau yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Adran 2: Cydymffurfiaeth Safonau Cyflenwi

Gwasanaethau (Safonau 1-83)

Rhodddwyd canllawiau i staff y Cyngor Llyfrau ar y Safonau ac mae rhain ar gael ar wefan y Cyngor.

Gohebu (Safonau 1-7)

Mae staff yn ymateb i ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn yr un iaith â'r llythyr neu'r e-bost gwreiddiol, gan nodi'r iaith ddewisol ar gyfer y dyfodol.

Wrth gychwyn gohebiaeth ag aelodau o'r cyhoedd, gwneir hynny drwy gyfrwng iaith ddewisol yr unigolyn/unigolion os yw hynny'n hysbys. Fel arall, anfonir yr ohebiaeth yn ddwyieithog a holir yr unigolyn/unigolion ynghylch eu hiaith ddewisol ar gyfer gohebu â ni. Pan geir yr wybodaeth yma, cofnodir yr iaith ddewisol ar gyfer y dyfodol ac mae staff yn ymdrin â'r person/personau yn eu hiaith ddewisol o hynny ymlaen. Os derbynnir gohebiaeth uniaith oddi wrth y person mae'r staff yn gohebu â hwy, ond nid yw'r person wedi datgan ei iaith ddewisol, mae staff yn gohebu gyda'r unigolyn yn yr iaith yna o hynny ymlaen. Llofnodir copïau Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth. Mae unrhyw waith sydd angen ei gyfieithu yn cael ei anfon at Ysgrifenyddes y Prif Weithredwr.

Galwadau ffôn (Safonau 8-10, 18, 20-21)

Os yw aelod staff yn ateb galwadau ffôn allanol neu alwadau sydd wedi eu trosglwyddo gan y dderbynfa, maent yn ateb â chyfarfodiad dwyieithog:

"Cyngor Llyfrau Cymru / Books Council of Wales".

Anogir pob aelod o staff i osod neges wedi ei recordio dwyieithog ar

beiriant ateb eu ffôn, gyda'r Gymraeg o flaen y Saesneg. Os nad oes neges wedi ei osod, mae'r galwad yn cael ei flaenyrru i system neges llais y Cyngor Llyfrau, sydd â'r Gymraeg o flaen y Saesneg. Nid oes gennym system ffon wedi ei awtomeiddio.

Gwasanaethau ffôn (Safonau 12-17, 22)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau yma.

Mae pob hysbyseb o rifau ffôn y Cyngor Llyfrau gyda'r Gymraeg cyn y Saesneg. Mae gwasanaeth Cymraeg ar gael ar brif rif ffôn y Cyngor Llyfrau yn barhaol. Nid oes gennym system ffôn wedi ei awtomeiddio.

Cyfarfodydd (Safonau 23, 25, 25A, 25CH)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau yma. Mae pawb sydd yn mynychu cyfarfod a gynhelir gan y Cyngor Llyfrau yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol yn y cyfarfod. Defnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd lle nad yw pawb sydd yn mynychu yn gallu siarad Cymraeg.

Digwyddiadau cyhoeddus (Safonau 26-32)

Mae pawb sydd yn mynychu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd a gynhelir gan y Cyngor Llyfrau yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol yn y cyfarfod. Mae gwahoddiadau i bob cyfarfod yn ddwyieithog. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod i bawb sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth yma. Mae pob deunydd ysgrifenedig cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog, yn ogystal â deunydd cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau.

Hysbysebu (Safonau 33-34)

Mae pob deunydd cyhoeddusrwydd a ddefnyddir gan y Cyngor Llyfrau yn ddwyieithog. Mae rhai cyhoeddiadau i hyrwyddo llyfrau Cymraeg yn uniaith Gymraeg, ac mae cyhoeddiadau wedi eu targedu ar gyfer cynulleidfaedd penodol yn ddibynnol ar iaith y llyfrau.

Llunio dogfennau i'r cyhoedd (Safonau 36, 44-47)

Mae dogfennau i'r cyhoedd ar gael fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, neu yn ddwyieithog.

Fe fyddwn yn sicrhau o hyn ymlaen fod y fersiynau Saesneg yn datgan yn glir bod y dogfennau hefyd ar gael yn Gymraeg.

Gwefan y Cyngor Llyfrau (Safonau 48, 51-52)

Mae gwefan y Cyngor Llyfrau yn gwbl ddwyieithog. Mae gosodiad pob tudalen yn gyson gyda thestun pob tudalen ar gael yn Gymraeg ac mae pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn. Mae'r tudalennau Saesneg yn cynnwys dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg cyfatebol ar ben y dudalen. Mae pob dogfen a luniwyd gan y Cyngor Llyfrau, a gyhoeddwyd ar y wefan, ar gael yn y Gymraeg. Mae rhyngwyneb pob tudalen, a'r dewislenni ar bob tudalen, ar gael yn Gymraeg.

Mae'r wefan a'i chynnwys wedi ei hail ddylunio ac yn barod i fynd yn fyw yn ystod 2020/21. Bydd dim effaith ar ddwyieithrwydd presennol y wefan.

Roedd y Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn cyn y dyddiad y daeth y safonau i rym.

Apiau a'r cyfryngau cymdeithasol (Safon 53-55)

Mae cyfrifon y Cyngor Llyfrau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog. Y prif gyfrif ar Facebook yw <https://www.facebook.com/llyfrau.books> – a thra bod ein cynnwys ni bob amser ar gael yn y ddwy iaith, ni allwn sicrhau bob amser fod pob darn o gynnwys sydd yn cael ei rannu, yn ddwyieithog, gan ei fod weithiau yn cyfeirio at lyfr Saesneg neu lyfr Cymraeg (ac felly y cynnwys yn ymwneud â iaith y llyfr). Yn achos Twitter ac Instagram, mae'r cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân, ond gyda Facebook, un cyfrif dwyieithog sydd. Mae'r cynnwys yn cael ei dargedu ar gyfer cynulleidfaedd gwahanol a ddim o reidrwydd yn gyfieithiad uniongyrchol o un iaith i'r llall, gan mai'r bwriad pennaf yw cyhoeddi cynnwys perthnasol yn yr iaith sydd yn ymwneud â iaith y llyfr neu'r cyfrwng sydd yn cael ei hyrwyddo.

Tra bod yr Ap Llyfrau yn dal ar gael i'r rhai sydd wedi ei lawrlwytho, nid yw ar gael i neb o'r newydd ac nid oes cynnwys yn cael ei ychwanegu.

Arwyddion (Safonau 57-59, 137-139)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn.

Mae arwyddion sydd yn Gymraeg yn unig yn cael eu rhoi i'r chwith o'r arwydd Saesneg cyfatebol. Lle mae testun Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un arwydd, mae'r testun Cymraeg uwchben y testun Saesneg.

Y Dderbynfa (Safonau 60, 63-64)

Nid yw'r Cyngor Llyfrau yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd, felly ychydig iawn o ymwelwyr sydd yn ymweld â'r dderbynfa. Yn ystod 2019/20 cynlluniwyd i beidio a chael presenoldeb parhaus yn y dderbynfa ond yn hytrach i ganiatáu i dîm o staff ateb y ffôn o'u desgiau ac i ateb y system gyfathrebu drwy ddefnyddio camera a system intercom. Mae'r gwasanaeth yn parhau yn gwbl ddwyieithog. Bydd yr holl ymwelwyr yn cael eu cyfarch yn iaith yr ymwelydd os yw hynny'n hysbys. Fel arall, maent yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog.

Mae pob aelod o staff sy'n ymwneud â gwaith croesawu yn rhugl yn y Gymraeg ac yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Roedd y Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau cyn y dyddiad y daeth i rym.

Hysbysiadau (Safonau 65-66)

Mae hysbysiadau mae'r Cyngor Llyfrau yn cael eu cyhoeddi neu eu harddangos yn ddwyieithog, gyda'r fersiwn Gymraeg uwchben neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg. Os yw hysbysiadau'n cael eu cyhoeddi ar y wefan, mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae'r cynnwys yn gyfatebol ble mae'r fersiynau ar wahân.

Tendrau (Safonau 72-74, 76)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract ar safle GwerthwchiGymru (Sell2Wales) ac yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (Official Journal of the European Union – OJEU).

Darparir categorïau'r nwyddau CPV (Common Procurement Vocabulary) ar gyfer hysbysiadau OJEU gan yr Undeb Ewropeaidd yn y 22 iaith swyddogol yn unig. Nid yw'r Gymraeg yn iaith swyddogol llawn, ond yn iaith cyd-swyddogol. Nid yw'r Cyngor Llyfrau yn cydymffurfio'n llwyr â

Safon 72, gan fod rhannau yn unig o'r gwahoddiadau GwerthwchiGymru yn Gymraeg. Nid oes fersiwn Gymraeg o'r gwahoddiadau OJEU am y rheswm uchod, ond mae hyn tu hwnt i reolaeth y Cyngor Llyfrau. Nodir nad yw'n ofynnol i gorff cyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yn y Cyfnodolyn Swyddogol.

Cyhoeddir gwahoddiadau ar GwerthwchiGymru fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae 1 gwahoddiad ar safle GwerthwchiGymru wedi eu gwneud yn ystod 2019/20, ac mae yn datgan y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg. Felly, roedd y Cyngor Llyfrau yn cydymffurfio'n rhannol â Safon 73 yn ystod 2019/20.

Hysbysebwyd 4 tendr yn ystod 2019/20. Roedd yr holl hysbysebion a'r gwaith papur ar gyfer y tendrau unai'n ddwyieithog neu roedd dewis o'u derbyn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Derbyniwyd 8 ymateb i'r tendr swyddi golygyddol Cymraeg, 7 yn Gymraeg ac 1 yn Saesneg; derbyniwyd 7 ar gyfer grantiau rhaglen Saesneg, 1 yn Gymraeg a 6 yn Saesneg; derbyniwyd 8 ar gyfer swyddi Saesneg a noddwyd, 2 yn Gymraeg a 6 yn Saesneg a derbyniwyd 2 ymateb i'r tendr ar gyfer y gwasanaeth newyddion digidol, y ddau yn Gymraeg.

Gwasanaethau Cymraeg (Safonau 77-78)

Mae'r Cyngor Llyfrau eisoes yn cydymffurfio â'r Safonau yma.

Mae holl wasanaethau'r Cyngor Llyfrau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ceir gwybodaeth amdanynt ar wefan y Cyngor Llyfrau, gyda phob tudalen ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae deunydd sydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau'r Cyngor Llyfrau yn ddwyieithog. Nid yw'r deunydd yma, neu'r wefan, yn cyfeirio at y gwasanaethau sydd ar gael yn y naill iaith neu'r llall, gan eu bod i gyd ar gael yn y ddwy iaith.

Hunaniaeth Gorfforaethol y Cyngor Llyfrau (Safon 79)

Newidiwyd enw Saesneg swyddogol y Cyngor Llyfrau yn ystod 2019/20 o 'Welsh Books Council' i 'Books Council of Wales' i gyfleu'n well natur perthynas y Cyngor a'r diwydiant cyhoeddi Saesneg yng Nghymru. Enw swyddogol y Cyngor felly yw 'Cyngor Llyfrau Cymru/Books Council of Wales'. Mae hyn wedi ei ddangos yn glir ar bob eitem o ddeunydd swyddfa safonol y Cyngor Llyfrau, boed o ddefnydd yn fewnol neu yn gyhoeddus. Mae pob eitem o wybodaeth ar yr eitemau yma yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg bob tro.

Dyluniwyd a lansiwyd logo newydd yn ystod 2019/20. Dyma'r unig fersiynau o'n logo y dylid eu defnyddio. Mae'r logo wedi ei ddylunio i roi'r Gymraeg uwchben y Saesneg.

Defnyddir logo'r Cyngor Llyfrau yn ddwyieithog. Pryd bynnag a ble bynnag y caiff ei ddefnyddio, yng Nghymru a thu hwnt, rhaid defnyddio'r logo dwyieithog.

Addysg (Safon 80)

Nid yw'r Cyngor Llyfrau yn darparu cyrsiau addysg, yn yr ystyr fod cwrs yn golygu cyfres o sesiynau dysgu. Darperir rhai gweithdai i staff y cyhoeddwr a gefnogir gan y Cyngor Llyfrau, ond nid yw'r rhain yn gyrsiau addysg sydd ar agor i'r cyhoedd.

Cyhoeddiadau dros y system annerch gyhoeddus (Safonau 83, 140)

Nid oes gan y Cyngor Llyfrau system annerch gyhoeddus, ond mae modd defnyddio'r system ffôn i wneud cyhoeddiad. Gan fod 100% o'r staff yn siarad Cymraeg, bydd unrhyw gyhoeddiad yn cael ei wneud drwy'r Gymraeg yn unig.

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn.

Dyma enghreifftiau o logo dwyieithog y Cyngor Llyfrau:



Adran 3: Cydymffurfiaeth Safonau Llundain Polisi (Safonau 84-89, 91-93, 144)

Llundain Polisi (Safonau 84-89, 91-93, 144)

Mae'r Cyngor Llyfrau eisoes yn gweithredu yn unol â'r Safonau hyn.

Mae'r Gymraeg yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff y Cyngor Llyfrau, ac mae brwdfrydedd wrth roddi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth lunio polisi – digwydd hynny'n gwbl naturiol.

Cyhoeddwyd Cynllun Strategol 2016-2020 y Cyngor Llyfrau yn ddwyieithog. Roedd y broses o ddatblygu'r cynllun yn mynnu ymgysylltu gyda'r cyhoedd.

Byddwn yn adolygu Cynllun yr Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2011 i sicrhau ein bod yn parhau i gyrraedd y safonau.

Ni dderbyniwyd cwyn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor Llyfrau â'r safonau Llundain polisi yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Defnyddio dwyieithrwydd hyd yn oed y tu allan i Gymru:



Adran 4: Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu

Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safon 94)

Cyhoeddwyd canllawiau i'r Safonau ar fewnwyd y Cyngor Llyfrau ac aed ati i ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae'r Polisi a'r canllawiau newydd wedi eu drafftio. Y cam nesaf fydd derbyn cymeradwyaeth y Tîm Rheoli ac ymgynghori â'r Fforwm Staff, ac yna eu cyhoeddi ar y fewnwyd.

Adnoddau Dynol:

Hawliau'r Cyflogai (Safonau 95-100)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

Cyhoeddi Polisiâu (Safonau 101-107)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

Cwynion (Safonau 108-109, 111)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

Disgyblu (Safonau 112-113, 115)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

Datblygu Sgiliau yn y Gymraeg / Hyfforddiant (Safonau 123-129, 145-146)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r safonau hyn.

Darparodd y Cyngor Llyfrau hyfforddiant rheolaidd a chefnogaeth cyfoedion i un aelod o staff ddatblygu ei sgiliau Cymraeg o'i phenodiad ym mis Mai 2018 hyd ei hymadawiad ym Mawrth 2020.

Mae pob sesiwn hyfforddiant sydd yn ymwneud ag adnoddau dynol wedi cael eu cynnal yn Gymraeg dan arweiniad Cyngor Sir Ceredigion.

Swyddi newydd / swyddi gwag (Safonau 132-134, 136, 147, 148)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau yma, ac eithrio Safon 134. Cynhelir y cyfweiliad fel arfer yn Gymraeg a gofynnir un cwestiwn yn Saesneg (yn dibynnu ar y swydd).

Dyma'r ystadegau am y nifer o swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gan y Cyngor Llyfrau yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn-

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol – 6
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd – 0
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol – 1
- nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol – 1

Ni dderbyniwyd cwyn ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor Llyfrau â'r safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio a hwy.

Meddalwedd gyfrifiadurol (Safon 116)

Er mwyn i staff allu gwirio eu Cymraeg, mae meddalwedd Cysgliad wedi ei osod ar bob cyfrifiadur yn y Cyngor Llyfrau.

Mewnrwyd y Cyngor Llyfrau (Safonau 117, 120-122)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r rhan fwyaf o'r Safonau hyn.

Gyda chorff mor fach a'r Cyngor Llyfrau, nid oes gennym adnoddau digonol i gyfieithu holl gynnwys y fewnrwyd, ond mae rhan fwyaf o'r cynnwys yn uniaith Gymraeg yn unol â iaith y gweithle (nid oes unrhyw gynnwys Saesneg). Nid yw'r Cyngor yn gweithredu'n unol â Safon 121 (deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg) ar hyn o bryd, ond bwriedir creu tudalen ar y fewnrwyd SharePoint a fydd yn gweithredu'n unol â'r Safon yma yn y dyfodol.

E-bost (Safonau 130-131)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn darparu templed llofnod safonol sy'n galluogi staff i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst. Mae hyn ar gael drwy daflen gymorth ar y fewnrwyd. Rydym wedi uwchraddio llofnodion e-bost aelodau staff i fersiynau HTML, er mwyn hwyluso cynnwys logo 'Cymraeg' yn eu llofnod. Nid yw'r fersiynau testun yn galluogi hynny. Serch hynny, mae nifer o staff wedi gwneud hynny'n barod neu'n cynnwys geiriad yn eu llofnodion i ddynodi eu bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Mae taflen cymorth ar gael i'r sawl sydd yn dymuno symud i'r llofnod newydd ond mae Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Cyngor Llyfrau yn gweithio ar eraill.

gael y llofnod wedi ei ddarparu'n ganolog gan nad oes gan bob aelod staff y gallu i wneud hyn eu hunain.

Cadw cofnodion cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Safonau 141-143)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn.

Adran 5: Monitro

Cyfrifoldeb y Tîm Rheoli yw sicrhau cydymffurfio â'r safonau o fewn eu hadrannau ac mae hyn yn cael ei adolygu yn gyson. Mae gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor Llyfrau yn darparu adnoddau er mwyn sicrhau bod y Cyngor Llyfrau yn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn, sef y Tîm Gwerthu a Gwybodaeth (sydd yn bennaf gyfrifol am gynnwys ar wefan gwales) a'r Adran Olygyddol yn sicrhau fod cynnwys Cymraeg a Saesneg yn cyfateb ar bob dogfen.

Adran 6: Safonau Atodol (Safonau 149-168)

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gweithredu'n unol â'r Safonau hyn. Cyhoeddwyd Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor Llyfrau ar ein gwefan ac ar fewnrwyd y staff. Cyhoeddwyd Polisi Cwynion ar wefan y Cyngor Llyfrau, ac fe ymdrinnir â chwynion ynghylch cydymffurfiaeth y Cyngor Llyfrau â Safonau'r Gymraeg yn yr un modd â chwynion

Adran 7: Cyflawniad i dargedau Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Targed	Statws
Safon 94 – mabwysiadu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol a'r canllawiau staff i'r Safonau.	Cyflwynwyd y polisi hwn i'r Tîm Rheoli ac mae'r egwyddor o ystyried effaith penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg yn un a fabwysiadwyd.
Safon 121 – creu tudalen ar y fewnwyd fydd yn gweithredu'n unol â'r safon o sut i gynorthwyo ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	Bydd y fewnwyd yn cael ei hystyried fel rhan o ddatblygiad Technoleg Gwybodaeth ehangach, ac mae'r symudiad i Sharepoint wedi lleihau dibyniaeth ar ddefnydd o'r fewnwyd.
Safonau 126 a 127 – parhau i gefnogi staff nad ydynt yn gwbl hyderus eu Cymraeg, ac annog rhagor o staff i fynychu cyrsiau dan adain Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn gloywi eu Cymraeg.	Cefnogwyd un aelod o staff a adawodd y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae'r gwaith yma'n parhau.
Safon 130 – 131 – uwchraddio llofnodion e-bost aelodau staff i fersiynau HTML, er mwyn hwyluso cynnwys logo 'Cymraeg' yn y llofnod, a darparu'r llofnod yn ganolog.	Wedi ei gyflawni. Angen atgoffa staff i ddefnyddio'r llofnod ar bob achlysur.
Safon 134 – cydymffurfio drwy sicrhau bod ffurflenni cais am swyddi yn caniatáu i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg. Mae pob cyfweiliad yn cael ei gynnal yn Gymraeg eisoes, felly ffurfioldeb yn unig yw hwn.	Wedi ei gyflawni.

Adran 8: Blaenoriaethau Ebrill 2020 – Mawrth 2021

Er mwyn cydymffurfio â'r Safonau rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud. Yn ogystal â hynny mae argyfwng COVID-19 yn cyflwyno heriau newydd i ffordd y Cyngor Llyfrau o weithredu. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r materion hyn yn ystod y flwyddyn:

Safon 29 – Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid hysbysu'r rhai sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg: (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Byddwn yn sicrhau bod cyfarfodydd yn defnyddio technoleg (megis Zoom) gydag opsiynau cyfieithu fel bod modd parhau i dderbyn cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg gan y rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

Safonau 126 a 127 – parhau i gefnogi staff nad ydynt yn teimlo'n hyderus eu Cymraeg, ac annog rhagor o staff i fynychu cyrsiau dan adain Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn gloywi eu Cymraeg.

Safon 21 – creu cofrestr ar system ganolog i nodi dewisiadau ieithyddol.

Safon 80 – ceisio sicrhau, os bydd cwrs addysgol sy'n agored i'r cyhoedd lle nad oes darparwyr ar gael yn y Gymraeg, bod offer cyfieithu'n cael ei gynnig ar gyfer cwestiynau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Safon 48 – sicrhau bod y wefan newydd yn cael ei dylunio a'i gweithredu, gyda'r holl gynnwys ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.